45. GWIR FAWREDD
(Iesu'n dysgu'r disgyblion)

Yr oedd Iesu a'i ddisgyblion ar y ffordd adref i Gapernaum. Bu'n ddiwrnod hir a chaled ac roeddent yn chwyslyd, yn flinedig ac yn llwglyd. Ar y blaen cerddai Pedr, yn dal a chryf. Roedd yn ŵr egnïol iawn ond yn gallu bod yn fyrbwyll ar brydiau. * Wrth ei ochr – braidd yn fyr ei anadl – yr oedd Andreas. Roedd Andreas a Phedr yn ddau frawd. Er mai Pedr oedd y cryfaf a'r mwyaf o'r ddau, hoffai Andreas feddwl mai ef oedd y mwyaf profiadol. Treuliodd gyfnod gydag Ioan Fedyddiwr – rhywbeth na wnaeth Pedr erioed. Ac Andreas hefyd oedd yr un a gyflwynodd Pedr i Iesu.*

Yn dynn ar eu sodlau yr oedd dau frawd arall, yn chwerthin a chellwair yn swnllyd. Doedd pethau byth yn dawel pan oedd Iago a Ioan o gwmpas. 'Meibion y Daran' roedd Iesu'n eu galw. Cawsant y llysenw yn eu plentyndod fwy na thebyg, oherwydd mae lle i gredu eu bod yn gefndryd i Iesu.*

Tu ôl iddynt hwy roedd Mathew, Philip a Tomos a disgybl arall o'r enw Iago. Ac yn olaf roedd Seimon, Thaddeus, Bartholomeus a Jiwdas.

Chwith . . . dde . . . chwith . . . dde . . . . ymlwybrodd y deuddeg gŵr ar hyd y ffordd lychlyd. Erbyn hyn roedd pawb yn

bur dawel. Roedd Iago a Ioan wedi distewi hyd yn oed . . . nes i Pedr benderfynu'n sydyn ei fod am ofyn cwestiwn.

'Sut fywyd gawn ni tybed pan gaiff y Meistr ei wneud yn Frenin?' holodd.

'Gwych!' meddai Tomos.

'Mi fydd yn dipyn gwell i'n traed ni!' llefodd Andreas. 'Gawn ni fynd i bob man mewn cerbydau wedyn!'

'Byddwn yn gwledda bob nos!' meddai Philip gan lyfu ei weflau.

'Www ie.' Roedd golwg freuddwydiol ar wyneb Pedr. 'Mi fedra i'n gweld ni'n eistedd wrth y bwrdd a minnau wrth ochr y Brenin Iesu ym mhen uchaf y bwrdd.'

'Hei! Beth sy'n gwneud i ti feddwl mai ti fydd wrth ochr Iesu?' holodd Mathew'n chwyrn.

Yn sydyn aeth pawb yn dawel.

'Wel, mae'n amlwg yn tydi? Fi yw'r arweinydd,' meddai Pedr.

'O nage ddim.'

'O ie wir. Fi sy'n dod yn gyntaf ym mhopeth 'den ni'n wneud.'

'Dim ti oedd y cyntaf i gyfarfod Iesu, reit siŵr,' meddai Andreas.

'Fi wnaeth dy gyflwyno di iddo, felly dwi'n haeddu lle anrhydeddus wrth ei fwrdd.'

'Arhoswch funud!' Torrodd Iago ar draws y sgwrs. 'Os yden ni'n siarad am safleoedd anrhydedd, yna, mae'n sefyll i reswm mai 'mrawd a finnau ddylai gael y seddau agosaf at Iesu. Wedi'r cyfan, ryden ni'n deulu. Ryden ni wedi ei 'nabod o erioed.'

'Ie, ni piau'r safleoedd blaenaf yn nheyrnas nef,' cytunodd Ioan.

'O nage wir!'

'O ie siŵr!'

Ac felly y buont yn dadlau yr holl ffordd i Gapernaum. *

'Am beth roeddech chi i gyd yn ffraeo ar y ffordd?' holodd Iesu wedi iddynt gyrraedd yn ôl i Gapernaum.

O diar! Roedd pawb wedi meddwl ei fod yn ddigon pell oddi wrthynt i beidio â chlywed yr holl gecru.

'Dim. Dim byd o gwbl!' meddai Pedr.

Yr oedd ei gyfeillion yn teimlo cywilydd.

Er mawr ollyngdod i bawb ni holodd Iesu ragor. 'Dowch i eistedd. Fe gawn ni sgwrs fechan cyn swper,' meddai Iesu ac fe eisteddodd

pawb ar y mat.

Nawr, pan fyddwch yn llwglyd a rhywun eisiau sgwrsio â chi, fe all fod yn anodd canolbwyntio. Ond cyn gynted ag y clywodd y disgyblion am beth yr oedd Iesu eisiau sgwrsio, rhoesant eu holl sylw iddo.

'Dwi am ddweud wrthych mor wych fydd Teyrnas Dduw,' dywedodd.

Rhyfeddol! Fe gâi'r ddadl ei datrys unwaith ac am byth.

'Rhaid i bwy bynnag sydd am fod yn flaenaf,' dechreuodd Iesu . . .

'Dos yn dy flaen! Dywed wrthynt fod yn rhaid i bwy bynnag sydd am fod yn flaenaf gael ei eni'n arweinydd naturiol,' meddyliodd Pedr.

'Dos yn dy flaen! Dywed wrthynt fod yn rhaid i unrhyw un sydd am fod yn flaenaf berthyn i'r brenin,' meddyliodd Ioan.

'Dos yn dy flaen! Dywed wrthynt fod yn rhaid i'r un sydd am fod yn flaenaf gael digon o brofiad,' meddyliodd Andreas.

'. . . Mae'n rhaid i bwy bynnag sydd am fod yn flaenaf,' meddai Iesu, 'roi ei hunan yn olaf ac yn was i bawb.'

Yr oedd y disgyblion yn rhythu arno'n geg-agored. Os oeddech chi am fod yn flaenaf yna roedd yn sefyll i reswm fod yn rhaid i chi orchfygu eich gwrthwynebwyr. Rhaid oedd profi eich bod yn glyfrach, yn gyfoethocach, yn fwy golygus ac yn fwy pwerus na phawb arall. Ond yna, wrth iddynt ddechrau meddwl am eiriau'r Meistr, dechreuodd y cwbl wneud synnwyr. Roedd golwg euog ar wynebau Pedr ac Andreas. Ysgydwodd Iago a Ioan eu pennau. Fe ddylent fod wedi sylweddoli hyn yn gynt. Ers y dechrau bu Iesu'n eu dysgu fod ei deyrnas ef yn gwbl wahanol i bob teyrnas arall. Felly roedd synnwyr cyffredin yn dweud y byddai'r llwybr i fawredd yn ei deyrnas ef yn wahanol hefyd.

'Rhaid i ni roi'r gorau i geisio curo pobl ond ceisio cynnig i'w helpu yn hytrach. Iawn?' meddai Pedr.

Atebodd Iesu mohono'n uniongyrchol. Yn hytrach, galwodd ato blentyn bach, plentyn o deulu lleol, heb unrhyw ddoniau amlwg a heb gyflawni fawr ddim yn ei fywyd bach. Gwnaeth i'r plentyn sefyll yn agos ato ac yna cofleidiodd y plentyn yn gynnes.

A gwenodd y disgyblion. Mor wirion yr ymddangosai eu dadl yn

awr. Roedd y cwbl mor syml a dweud y gwir. Yr hyn oedd yn bwysig yn nheyrnas Duw oedd nid pa mor glyfar roeddech na faint roeddech wedi ei gyflawni. Y peth pwysicaf oedd cadw'n agos at Iesu, cael eich caru ganddo, a'i garu'n ôl.

HYD: Stori sylfaenol: 6 munud. (Bydd angen caniatáu rhagor o amser i grwpiau ddysgu ac ymarfer eu harwyddeiriau.)

NEGES: Gwir fawredd – y gwahaniaeth rhwng yr hyn mae'r byd yn ei gredu a'r hyn mae Iesu'n ein dysgu.

DARLLEN: Marc 10: 33–37

ADRODD Y STORI I GRŴP:
Rhannwch grŵp o blant yn dri: un lle mae'r plant i chwarae rhan Pedr, pawb yn yr ail grŵp i fod yn Andreas a'r trydydd grŵp yn Iago a Ioans! Arwyddair Pedr yw 'Gefais i fy ngeni'n arweinydd'. Arwyddair Andreas yw 'Hebdda fi, ble fyddech chi?' ac un Iago a Ioan yw 'Teulu'n gyntaf'. Wrth i'r gwahanol gymeriadau gael eu cyflwyno, mae'r grwpiau'n ailadrodd eu harwyddeiriau. Pan mae'r dadlau'n dechrau, pawb i weiddi eu harwyddeiriau ar draws ei gilydd. (Nodir y mannau priodol ag * yn y stori.) Dylai'r plentyn ieuengaf yn y grŵp fod yn eistedd gerllaw'r storïwr, fel y gellir ei gyflwyno ar ddiwedd y stori fel y plentyn y defnyddiodd Iesu ef i ddysgu'r wers. (SYLWER: peidiwch â gwneud hyn os bydd yn peri gormod o embaras. Yn ddelfrydol dylai'r plentyn fod o oed meithrin.)